PACEY Cymru

**Arsylwi plant yn y blynyddoedd cynnar.**

Yn yr astudiaeth achos hon rydym yn siarad â Shelley Rees, Rheolwr Gwasanaeth PACEY Cymru ar bwysigrwydd arsylwi a'r rhan y mae'n ei chwarae wrth gefnogi datblygiad babanod a phlant ifanc. Rydym hefyd yn cynnwys adborth gan ymarferwyr sydd wedi siarad â PACEY Cymru am arsylwi plant wrth iddynt ymgorffori Cwricwlwm i Gymru yn eu hymarfer.

Mae gan fabanod a phlant ifanc angen mewnol cryf i archwilio a chwarae. Maent yn cael eu geni yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas.

Fel gweithwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar proffesiynol rydym yn deall bod chwarae yn hawl sylfaenol i bob plentyn, ac mae angen i ni gefnogi hyn drwy gynnig profiadau difyr ac amgylcheddau effeithiol ar gyfer chwarae. Mae sylwi ar y rhain a thiwnio i mewn iddynt i gefnogi cynnydd a'r camau nesaf yn rhan allweddol o rôl gweithwyr proffesiynol gofal plant a blynyddoedd cynnar.

**Pam ei bod yn bwysig arsylwi plant?**

Mae arsylwi plant yn eu chwarae yn hollbwysig er mwyn deall anghenion, ymddygiad, hoffterau, llesiant a diddordebau'r plentyn. Nid oes rhaid i hyn fod trwy arsylwi ffurfiol, wedi'i gynllunio ond gall ddigwydd 'yn y foment'.

Bydd oedolion sy'n galluogi'n cadw anghenion datblygiadol plant yn flaenllaw yn eu hymarfer tra'n sicrhau bod eu gwahaniaethau'n cael eu parchu, eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, yn meddu ar ddealltwriaeth well o lawer o'r plant yn eu gofal. Bydd yn darparu'r amodau gorau ar gyfer eu datblygiad a'u cynnydd.

Mae cynllunio yn y foment angen fod yn blentyn-ganolog, gan gadw'r plentyn wrth galon pob penderfyniad ynghylch pa fath o chwarae a phrofiadau sy'n cael eu cynnig a'u meithrin, gan ystyried eu diddordebau a'u hoffterau. Yn aml gall hyn gynnwys y plentyn yn y penderfyniad i gefnogi ei ddysgu a'i ddealltwriaeth.

Mae arsylwi effeithiol yn ein galluogi ni fel ymarferwyr i:

• ddod i adnabod pob plentyn

• adeiladu darlun cyfannol o bob plentyn

• ennill gwell dealltwriaeth o anghenion, diddordebau, ymddygiad, sgiliau a chynnydd unigolion a grwpiau o blant

• ddeall sut mae arsylwi yn cefnogi asesu

• gynllunio profiadau dysgu'r dyfodol a'r amgylchedd

• geisio cyngor pellach neu gyfeirio teuluoedd at ffynonellau cymorth eraill

*‘Rydyn ni’n arsylwi plant drwy’r amser yn organig. Wedi gwarchod plant am flynyddoedd lawer, rydych chi'n gwybod beth sy'n gwneud i'r plant dicio a'r camau nesaf y mae angen i chi eu cymryd.’* Gwarchodwr plant, Cymru

**Beth yw ein cyfrifoldeb ni o ran arsylwi plant?**

Mae’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi’i reoleiddio, Safon 7.9 yn nodi bod ‘*yr hyn y mae plant yn ei wneud yn cael ei arsylwi a’i gofnodi er mwyn helpu i gynllunio’r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant’*. Mae hefyd yn datgan yn Safon 7.10 bod *‘cynllunio clir ar gyfer gweithgareddau babanod’*. Felly, mae ein dyletswydd gofal yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu cyfleoedd chwarae a gweithgareddau i hybu datblygiad emosiynol, corfforol, cymdeithasol, creadigol, ieithyddol a deallusol.

*Cawsom blentyn yn cael trafferth gyda lleferydd a thrwy arsylwadau a chamau nesaf a heb gyrraedd targedau datblygu, roeddem yn gallu dangos tystiolaeth a cheisio cymorth gan therapydd lleferydd a rhanodd awgrymiadau. Erbyn i’r plentyn fod mewn addysg llawn amser roedd ei leferydd wedi gwella.’* Gwarchodwr plant, Cymru

Mae Cwricwlwm i Gymru yn nodi, fel gweithwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar proffesiynol y dylem ddefnyddio arsylwi a’n gwybodaeth am ddatblygiad plant i gynllunio profiadau dysgu sy’n cefnogi ac yn herio’r plant rydym yn gofalu amdanynt, a fydd yn eu tro yn eu helpu tuag at y pedwar diben i ddod yn:

• ddysgwyr uchelgeisiol, galluog

• gyfranwyr mentrus, creadigol

• ddinasyddion egwyddorol, gwybodus

• unigolion iach, hyderus.



**Sut gallwn ni gefnogi cynnydd a datblygiad y plant yn ein gofal?**

Fel oedolyn sy’n galluogi mae gennych rôl hanfodol wrth greu a chynnal perthnasoedd ac amgylchedd lle gall gofal, ymddiriedaeth, a chariad at ddysgu ffynnu. Mae angen inni fodelu dull llawen o ddysgu, a:

- chefnogi plant wrth iddynt archwilio'r byd o'u cwmpas.
- fodelu caredigrwydd, a pherthnasoedd cadarnhaol, sicr.
- helpu plant ifanc i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad trwy empathi a dealltwriaeth.

Mae Cwricwlwm i Gymru wedi cyflwyno dull newydd o gynllunio sy’n canolbwyntio ar y plentyn ac sy’n cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth yr oedolyn sy’n galluogi wrth ddarparu profiadau i gefnogi dysgu a datblygiad. Mae’r symud i ffwrdd oddi wrth y dull sy’n cael ei yrru gan ganlyniadau neu gynnyrch wedi cael derbyniad da ac wedi gwneud gweithwyr proffesiynol gofal plant a blynyddoedd cynnar yn llawer mwy effeithlon ac ymatebol yn eu cynllunio.

Trwy sefyll yn ôl, arsylwi, ac yna ymyrryd a chefnogi'n briodol, gall yr oedolyn wella dysgu'r plentyn trwy feddwl ar y cyd parhaus. Dyma lle maen nhw’n archwilio syniadau a chysyniadau gyda’i gilydd, ac mae llif i’r rhyngweithio boed yn eiriol neu’n ddi-eiriau. Mae cyfnewid ystyrlon a meddwl estynedig yn digwydd trwy drafodaethau neu gyfathrebu corfforol sy'n adeiladu ar ddealltwriaeth gyfredol ac yn darparu cyfleoedd pellach sy'n cyd-fynd â datblygu ar eu cyflymder eu hunain a dilyn eu diddordebau.

**Pa fathau o arsylwadau allwn ni eu defnyddio?**

Mae yna lawer o fathau o arsylwadau. Gallwn ddechrau trwy feddwl am ein rôl, boed hynny fel:

**Cyfranogwr**, sy'n golygu ein bod ni'n chwarae tra hefyd yn arsylwi.

**Neu fel y sylwedydd**, pan fyddwn yn gwylio, gall hyn olygu sefyll yn agos at y chwarae, neu ymhellach i ffwrdd.

Gall ein harsylwadau fod yn:

**Achlysurol** pan fyddwn yn sylwi ar rywbeth sy’n arwyddocaol i’w gofnodi wrth i ni fynd o gwmpas ein chwarae bob dydd.

**Neu wedi cynllunio**, pan fyddwn wedi trefnu neu creu rhywbeth i fesur ymateb, datblygiad neu gynnydd y plentyn.

Dylem sicrhau ein bod yn arsylwi plant, yr amgylchedd, yn ogystal â'r profiadau difyr a gynigir. Mae'n helpu i gofnodi sut mae plant yn rhyngweithio; eu dewisiadau a'r effaith a gaiff eraill arnynt a'u lefelau ymgysylltu.

*'Rydym yn cofnodi ein harsylwadau drwy nodiadau gludiog, llyfrau nodiadau a llyfrau lloffion sy'n cael eu diweddaru bob 6 wythnos. Rydyn ni'n ychwanegu lluniau, yn ysgrifennu'r hyn rydyn ni wedi bod yn gweithio arno, yn nodi'r camau nesaf, ac yna'n eu hanfon adref at rieni i wneud sylwadau ac yn ychwanegu atynt ac yn cynnig awgrymiadau o'r hyn yr hoffent i mi weithio arno nesaf.'* Gwarchodwr plant, Cymru

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o arsylwadau y gallech fod am eu hystyried:

- Mae **eiliadau hud** yn arsylwadau byr mewn eiliad benodol, sy'n cipio digwyddiad eithriadol neu anarferol.
- Mae **samplau amser** yn arsylwadau sy'n dal plentyn mewn ciplun o amser. Gellir ailadrodd y rhain i ddal cyfres o samplau amser.
- Mae **straeon dysgu** fel y maen nhw'n ei ddweud, yn gofnod dros gyfnod o amser.
- Mae **sociogramau** yn arsylwadau sy'n seiliedig ar y grwpiau cymdeithasol y mae plant yn chwarae ynddynt. Gallai hyn gynnwys gyda phwy mae'r plentyn yn chwarae, beth mae ganddyn nhw ddiddordeb ynddo gyda'i gilydd, faint o amser a dreulir yn chwarae ac unrhyw rolau y gall y plant eu cymryd yn eu chwarae.
- Mae **dewisiadau olrhain** yn arsylwadau sy'n seiliedig ar ba ddewisiadau y mae'r plentyn yn eu gwneud, gall hyn gynnwys chwarae ar ei ben ei hun neu gydag/ochr yn ochr ag eraill, gall hyd yn oed ymwneud â pha eitemau y mae'n eu harchwilio ac yn ymgysylltu â nhw.
- Mae **olrhain y defnydd o amgylcheddau** yn arsylwadau sy'n seiliedig ar yr hyn y mae plant yn ei wneud yn yr amgylchedd. A yw'n well ganddynt fod dan do neu yn yr awyr agored? Sut maen nhw'n defnyddio'r amgylchedd, ydyn nhw'n addasu'r hyn sydd wedi'i osod allan? Am faint o amser maen nhw'n chwarae? A oes gofod nad ydynt yn ei ddefnyddio?
- Mae **naratifau** fel arfer yn arsylwadau hirach y bydd y prif ofalwr yn eu cynnal a byddant yn aml yn cynnwys llawer o'r arsylwadau hynny a nodwyd yn flaenorol. Gall y rhain gynnwys mewnbwn gan rieni a phartneriaid ac maent yn aml ar amseroedd a drefnwyd.

I ddysgu mwy am y mathau o arsylwadau ewch i fodiwl hyfforddi Hwb: Arsylwi sydd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru ac sy'n rhan o gyfres o fodiwlau sydd wedi'u cynllunio i gynorthwyo ymarferwyr i fyfyrio ar arfer a darpariaeth.

**Beth yw eich cyngor da o ran arsylwi plant?**

Fy un peth i'w ystyried wrth arsylwi plant yw gwrando'n astud wrth iddynt chwarae. Mae gwrando gweithredol yn sgil sy'n ehangach na gwrando ar ei ben ei hun ac mae'n cynnwys adnabod iaith corff plentyn neu fynegiant wyneb i helpu i ddeall a chefnogi cysylltiad emosiynol â'r plentyn. Trwy wneud hyn cawn ddealltwriaeth llawer gwell o'r plentyn yn ei gyfanrwydd ac mae'n dangos ein parch sy'n atgyfnerthu ymlyniadau a pherthnasoedd cryfach a dyfnach.

Bydd hyd yn oed plant di-eiriau yn rhoi gwybod i chi trwy synau, sŵn, ciwiau ac ystumiau, sut maen nhw'n teimlo, eu mwynhad, rhyfeddod ac unrhyw anghenion. Cofiwch fwynhau'r rhyngweithio, ymgysylltu a sgyrsiau a rhannu yn eu llawenydd a'u cyflawniadau.

*'Rydym yn hwyluswyr, yn hwyluso chwarae. Hwyluso plant i gyflawni eu syniadau.'*
Gwarchodwr plant, Cymru

**Darllen pellach**

Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir-HWB

Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir-HWB

Lleoliadau Nas Cynhelir y GCA

Amgylcheddau Ysbrydoledig - PACEY

CEY smart Yr ochr fusnes- PACEY

Galluogi dysgu-Hwb